

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar
# Ysgol Gyfun Llangefni

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn darparu gofal a lles o'r radd flaenaf i'w disgyblion er mwyn iddynt lwyddo, beth bynnag fo'u hanghenion. Mae'r staff yn llwyddo i greu ymdeimlad teuluol ac maent yn adnabod disgyblion yn dda iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr sy'n sicrhau cynnydd yn academaidd ac yn eu datblygiad personol. Mae dulliau llwyddiannus i ddelio ag ystod a anghenion, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gweld hi'n anodd ymdopi â'u hemosiynau.

Mae disgyblion yn dangos balchder o fod yn rhan o gymuned yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol ac yn dangos agwedd gadarnhaol gan ddyfalbarhau â'u gwaith. Er bod presenoldeb yr ysgol wedi gwella ychydig eleni, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn rhy isel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd ac yn symud yn drefnus o amgylch safle'r ysgol. Mae ansawdd yr adeiladau eu hunain yn dirywio ac angen eu huwchraddio.

Rhinwedd nodedig o'r ysgol yw'r berthynas weithio agos a chynhaliol sydd rhwng yr athrawon â'u disgyblion. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn cynllunio'n ddychmygol er mwyn ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau'r disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn dda, yn darllen yn gryf ac ysgrifennu'n hyderus. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn bwrpasol mewn ystod o bynciau. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio'n ormodol sy'n golygu nad yw disgyblion bob tro'n deall beth sydd angen ei wneud i wella'u gwaith.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion cynradd a sefydliadau allanol er mwyn cynnig ystod o brofiadau i'r disgyblion. Elfen nodedig o'r ddarpariaeth hon yw'r profiadau awyr agored a gwersi garddio a roddir i ddisgyblion er mwyn datblygu medrau pynciol a medrau ehangach mewn cyd-destunau tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n seiliedig ar greu ysgol gymunedol, gynhwysol. Mae'n angerddol ac yn uchelgeisiol dros ddisgyblion, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Trwy flaenoriaethu lles disgyblion a staff ac wrth roi cefnogaeth werthfawr, mae arweinwyr wedi datblygu ysgol gydag ethos cefnogol a chymuned ofalgar a diogel. Ar sail eu gwaith sicrhau ansawdd, mae gan arweinwyr drosolwg gadarn o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu maes ac yn argymell camau gwella defnyddiol. Serch hyn, ni roddir digon o sylw i safonau a chynnydd disgyblion o fewn prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn adnabod gwendidau ym medrau'r disgyblion yn ddigon manwl er mwyn cynllunio i'w gwella.

# Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim

A2 Cryfhau’r gwaith hunanwerthuso, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant

A3 Gwella ansawdd ac effaith adborth i ddisgyblion

A4 Gwella ansawdd yr adeiladau

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â (i) darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a (ii) darpariaeth awyr agored a garddio, i’w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Llangefni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 686 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 582 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 104 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Uwchradd yw 20.2%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Uwchradd yw 17.8%) | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 78.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/01/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.